

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ffordd Llys Nant, Prestatyn ddydd Mawrth, 11 Hydref 2005 am 10.00 a.m.

PRESENNOL

Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Y Cynghorwyr R.E. Barton (arsylwr), G.C. Evans, G.A. Jones, M.M. Jones, D. Owens a G.J. Pickering.

Yn cynrychioli Cyd-bwyllgor Negodi Athrawon Sir Ddinbych

I. Barros-Curtis, M. Bradshaw a M.B. Lloyd.

Yn cynrychioli enwadau crefyddol

M. Colbert, Parch. P.J. Collinson, H. Ellis, Major D. Evans, M. Evans, S. Harris, Parch. B.H. Jones, J. Kirkham a P. Speirs.

Aelodau cyfetholedig

T. ap Sion (dirprwy ar ran y Parch. Athro L.J. Francis)

HEFYD YN BRESENNOL

Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol (G. Craigen) a Swyddog Gweinyddol (K.E. Jones)

Roedd y Pennaeth Gwasanaethau Addysg yn bresennol ar gyfer rhan gyntaf y cyfarfod.

DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

T. Bryer, J. Buckley-Jones, C. Thomas a'r Cynghorwyr K.N. Hawkins a N. Hugh-Jones

Hefyd derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Huw Griffiths, Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes a Tony Jones, Swyddog Addysg. Yng nghyswllt absenoldeb Tony Jones, dywedodd Mrs. M.B. Lloyd wrth yr aelodau fod Mr Jones wedi cael profedigaeth yn y teulu yn ddiweddar a mynegodd ei chydymdeimlad ag ef yn ei golled.

MYFYRDOD TAWEL

Dechreuodd y cyfarfod gyda ychydig funudau o fyfyrddod tawel.

CROESO

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i groesawu aelodau a swyddogion i'r cyfarfod ac estynnwyd croeso cynnes i Mrs. Rhian Roberts o Ysgol Pen Barras a fyddai'n rhoi cyflwyniad i'r aelodau yn ystod y cyfarfod.

631 MATERION BRYS

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cyhoeddodd y Cadeirydd ei bod yn bwriadu cynnwys y mater isod a oedd angen sylw brys:-

Cynrychiolwyr CYSAG Sir Ddinbych ar CYSAG Cymru.

632 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2005 (a ddisbarthwyd yn flaenorol), a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 20 Medi 2005.

Materion yn codi -

Tudalen 9 – paragraff olaf ond un – dywedodd Mrs. M.B. Lloyd wrth yr aelodau ei bod wedi bod yn y noson gyda'r cyn wystl Terry Waite a gynhaliwyd yn Theatr John Ambrose, Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun ar 2 Medi 2005. Dywedodd ei bod wedi bod yn noson ardderchog a'i bod yn falch o weld cynifer o bobl ifanc yn y gynulleidfa.

PENDERFYNWYD *derbyn y cofnodion.*

633 SEFYDLU CADEIRYDD NEWYDD

Dywedodd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol, y Cynghorydd M.M. Jones, ei bod wedi mwynhau ei chyfnod fel Cadeirydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf a manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i'r aelodau am eu cefnogaeth, teyrngarwch ac ymroddiad iddi hi ac i CYSAG yn ystod y cyfnod. Hefyd diolchodd i Bryn Jones, cyfieithydd ar y pryd y sir a Kath Jones, Clerc CYSAG am eu gwaith caled, gyda diolchiadau arbennig i Gavin Craigen, Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol, am ei wasanaeth a'i ymroddiad rhagorol i CYSAG. Cyfeiriodd y Cynghorydd M.M. Jones at ei chyfnod fel athrawes a'r newidiadau ym maes Addysg Gredyddol dros y blynyddoedd a thalodd deyrnged i'r gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud yn ysgolion Sir Ddinbych. Yn unol â chyfansoddiad diwygiedig CYSAG Sir Ddinbych, sefydlwyd yr Is-gadeirydd presennol, Mrs. M.B. Lloyd, fel Cadeirydd am y cyfnod 2005-2007 a chyfeiriodd y cyn Gadeirydd at y profiad helaeth oedd gan Mrs. Lloyd i'w gynnig yn y Gadeiryddiaeth a'i gweithgarwch gyda CYSAG a CYSAG Cymru. Diolchodd y Cadeirydd, Mrs. M.B. Lloyd, i'r Cynghorydd Jones am ei harweiniad fel Cadeirydd ac am y gwaith caled a gyflawnodd ar ran CYSAG yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

634 ETHOL IS-GADEIRYDD NEWYDD

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau o blith y cynrychiolwyr enwadau crefyddol ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd yn ystod y cyfnod 2005-07 yn unol â Chyfansoddiad diwygiedig CYSAG Sir Ddinbych. Cynigiwyd ac eiliwyd ethol y Parch. B.H. Jones yn Is-gadeirydd am y ddwy flynedd nesaf ac ar ôl pleidleisio ar y cynnig:-

PENDERFYNWYD *penodi'r Parch. B.H. Jones yn Is-gadeirydd ar gyfer y cyfnod 2005-2007.*

635 ADDYSG GREFYDDOL MEWN YSGOL FABANOD/CYNRADD - YSGOL PEN BARRAS, RHUTHUN

Croesawodd a chyflwynodd y Cadeirydd Mrs. Rhian Roberts o Ysgol Pen Barras, Rhuthun, i'r cyfarfod gan esbonio ei bod yn bresennol i roi cyflwyniad ar ddarpariaeth a chyflwyniad Addysg Grefyddol yn yr ysgol.

Drwy gydol ei chyflwyniad bu Mrs. Roberts yn arddangos lluniau o weithgareddau y bu'r plant yn eu gwneud ynghyd â deunyddiau ac adnoddau cyfredol i'r aelodau eu gweld. Darparodd drosolwg o Addysg Grefyddol yn yr ysgol; amlinellodd ei rôl fel Cydlynnydd Addysg Gredyddol; cyflwynodd fanylion am yr adnoddau sydd ar gael a dangosodd enghreifftiau o'r gwaith a gynhyrchwyd gan ddisgyblion yn eu gwaith Addysg Grefyddol. Cynghorwyd yr Aelodau fod:-

- Ysgol Pen Barras yn ysgol cyfrwng Gymraeg a agorwyd yn 1982 gyda 50 o ddisgyblion, ond sydd wedi cynyddu i 250 o ddisgyblion erbyn hyn. Roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion o gartrefi Cymraeg ac roedd mwyafrif y rhieni yn Gristnogion. Roedd llawer o'r plant yn mynd i le o addoliad y tu allan i'r ysgol.
- Talodd Mrs. Roberts deyrnged i'r arweiniad a dderbyniodd gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd a'r cyrsiau a ddarparwyd pan gafodd ei phenodi yn Gydlynnydd Addysg Grefyddol. Roedd yr hyfforddiant wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol ac roedd hi wedi cael cyfle i drafod ei chynlluniau gwaith gydag athrawon Addysg Grefyddol eraill ac edrych ar gynlluniau gwaith Addysg Grefyddol ysgolion eraill.
- Tua dwy flynedd yn ôl roedd Mrs. Roberts wedi gofyn i Gyngor Addysgu Addysg Grefyddol yng Nghymru am gymorth grant i dalu am dridiau i ailystyried ac adolygu cynlluniau gwaith a thasgau dysgu. Wedyn roedd y

cynlluniau gwaith ar eu newydd wedd wedi eu rhoi ar ddisgiau meddal a'u rhannu ag athrawon i gael eu barn. Y llynedd oedd y flwyddyn gyntaf i'r ysgol ddilyn y cynlluniau gwaith o'r dechrau i'r diweedd a'u monitro drwy gyfrwng portffolio a oedd yn cynnwys Cristnogaeth, Iddewiaeth (CA1) a Hindwiaeth (CA2).

- Y prif nod oedd sicrhau bod Addysg Grefyddol yn ddiddorol i'r disgyblion ac roedd y plant wedi cymryd rhan mewn llawer o wahanol fathau o weithgareddau yn cynnwys Priodas; Bedydd; y Grawys a'r Nadolig gyda'r plant wedi cymryd rhan yn Operation Christmas Child a chasglu'r bocsys.
- Roedd yr adnoddau wedi gwella'n ddirfawr dros y blynyddoedd, yn enwedig yr adnoddau Cymraeg. Gofynnwyd i'r rhieni gasglu ffotograffau o'r dref ac roedd lluniau o fannau addoliad wedi bod yn ddefnyddiol iawn gan eu bod wedi eu lamineiddio i'w defnyddio fel adnodd. Manteisiwyd ar y dechnoleg fodern i greu fideo ac roedd ffotograffau wedi eu rhoi ar CD Rom, ac roedd yr Eisteddfod wedi bod yn ffynhonnell rhagorol o adnoddau Cymraeg.
- Dangoswyd enghreifftiau o'r gwaith a gynhyrchwyd gan y disgyblion i'r aelodau i ddangos y math o waith a wnaed yn yr ysgol a lefel cyfraniad y disgyblion.
- Mae neuadd yr ysgol yn cael ei rhannu ag ysgol arall, a chyfunir y dosbarthiadau i addoli ar y cyd. Mae gwahanol ddosbarthiadau yn gyfrifol am y gwasanaeth ar ddydd lau, gyda'r plant yn cymryd rhan weithgar yn y gwasanaethau hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs. Roberts am ei chyflwyniad diddorol a llawn gwybodaeth a oedd wedi darparu cipolwg ar y gwaith rhagorol a wneir yn Ysgol Pen Barras i drosglwyddo Addysg Grefyddol. Roedd gan y Cadeirydd ddiddordeb arbennig yn sut roedd y plant a'r athrawon wedi bod yn creu eu hadnoddau eu hunain drwy gyfrwng technoleg yn hytrach na bod yn hollol ddibynnol ar adnoddau allanol. Ategwyd hyn gan yr Aelodau a chanmolwyd safon ac amrywiaeth y gweithgareddau a gynhelir yn yr ysgol i sicrhau bod Addysg Grefyddol yn berthnasol ac yn ddiddorol i'r disgyblion.

Dywedodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol fod Ysgol Pen Barras wedi ei chynnwys yn yr adroddiad monitro a ystyriwyd yng nghyfarfod diwethaf CYSAG a'i fod wedi cael profiad cadarnhaol iawn wrth ymweld â'r ysgol lle roedd cymaint o waith da yn cael ei wneud. Hefyd cynghorodd ei fod wedi arsylwi ar wasanaeth addoli ar y cyd yn yr ysgol a bod hyder y plant a oedd yn cymryd rhan wedi gwneud cryn argraff arno.

PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r cyflwyniad ar Addysg Grefyddol gan Mrs. Rhian Roberts o Ysgol Pen Barras, Rhuthun.

Ar y pwynt yma (10.50 a.m.) gohiriwyd y cyfarfod am ddeng munud i ganiatáu i'r aelodau edrych ar yr adnoddau a'r enghreifftiau o waith y plant a ddarparwyd gan Mrs. Roberts.

636 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol fersiwn ddrafft o Adroddiad Blynyddol CYSAG Sir Ddinbych 2004 - 2005 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a oedd yn rhoi crynodeb o weithgareddau CYSAG Sir Ddinbych yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys y Maes Llafur Cytunedig; Safonau mewn Addysg Grefyddol; Addoli ar y Cyd/Datblyniad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol; darpariaeth Hyfforddiant mewn Swydd a nifer o faterion eraill.

Cynghorodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ei fod wedi dilyn y canllawiau presennol o ran cynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol ar wahân i un newid bach lle roedd wedi gwahanu'r broses fonitro a'r broses arolygu yn (b)(i) a (b)(ii) yn ôl eu trefn yn yr adroddiad. O roi'r ddwy broses at ei gilydd roedd yn dangos bod 96% o'r ysgolion hynny yn y broses monitro ac arolygu yn gweithredu ar lefel boddhaol neu uwch, a oedd yn galonogol iawn. Roedd yr adroddiad yn adlewyrchu'r gwaith a

wnaed gan CYSAG Sir Ddinbych a gofynnodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol i'r aelodau gymeradwyo'r adroddiad i'w gyflwyno i ACCAC.

Tynnodd y Cynghorydd R.E. Barton sylw at un newid a oedd yn ofynnol ar dudalen 18 o'r adroddiad gan gynghori y dylai'r cyfanswm cronus nodi 69.5% ac nid 68.5% a chytunodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol i gynnwys y cywiriad hwnn cyn cyflwyno'r adroddiad i ACCAC.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol am ei waith caled yn cynhyrchu'r ddogfen a chynghorodd fod ACCAC yn arbennig o falch o'r gwaith a wnaed gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yn y broses fonitro.

PENDERFYNWYD cymeradwyo fersiwn ddrafft Adroddiad Blynyddol CYSAG.

637 ADRODDIAD ADOLYGIAD MONITRO A CHEFNOGAETH – CONSORTIWM YSGOLION YSGOL DINAS BRAN

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol adroddiad (a ddsbarthwyd yn flaenorol) ynghylch darpariaeth Addysg Grefyddol yng Nghonsortium Ysgolion Ysgol Dinas Bran a'r ysgol cynradd cysylltiedig: Ysgol Maes Hyfryd; Ysgol Llantysilio; Ysgol Llandrillo, Corwen; Ysgol Glyndyfrdwy; Ysgol Carrog; Ysgol Caer Drewyn ac Ysgol Bryn Collen.

Yn dilyn ymweliad â phob un o'r ysgolion gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yn ystod tymor yr haf, lluniwyd adroddiad a chytunwyd ar y materion a'r canlyniadau gyda'r ysgol. Roedd yr adroddiad yn nodi'r nodweddion da, y gwendidau a'r argymhellion i bob ysgol ynghyd â chrynodeb cyffredinol o'r consortiwm cyfan. Atgoffodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yr aelodau fod y broses fonitro yn rhan o'r adolygiad hunan werthuso a chefnogaeth y cytunwyd arni gyda'r ysgolion cyn ei gyflwyno i CYSAG, ac roedd yr ysgolion o'r farn fod y profiad yn werthfawr a defnyddiol.

Cynghorwyd yr Aelodau fod llawer i'w ddathlu o ran nodweddion da yn y consortiwm ysgolion, yn enwedig:

- cynlluniau gwaith clir ar gyfer Addysg Grefyddol
- amrediad da o weithgareddau addysgu a dysgu Addysg Grefyddol
- darpariaeth ar gyfer a chofnodi gweithredoedd addoli ar y cyd
- trefniadau asesu a chofnodi
- cysylltiadau da â'r gymuned ffydd leol ar gyfer Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd
- tystiolaeth dda o / proses hunan werthuso
- ethos da / naws teuluol yr ysgol

Wrth ystyried yr argymhellion dywedodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol fod yr ysgolion eisoes yn adolygu eu cynllun gwaith a'i fod wedi gallu cynorthwyo'r ysgolion gyda'r broses honno. Roedd yn braf gallu canmol yr ysgolion am eu harferion da presennol a argymell cynnal yr arferion da hynny. Nid oedd yn bosibl gwneud neu gadarnhau barn ar safonau ymhob ysgol ond cynhaliwyd trafodaethau â'r athrawon ac roedd yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol wedi nodi manylion am y patrymau sy'n dod i'r amlwg yn yr adroddiad. Cynghorodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol efallai na fyddai'n bosibl cynnwys pob un o'r ysgolion cynradd cysylltiedig yn yr adroddiad ond rhoddodd sicrwydd i'r aelodau y byddai unrhyw ysgolion nas cynhwyswyd yn awr yn cael eu cynnwys yn ddiweddarach.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol atebodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol gwestiynau'r aelodau ynghylch y broses fonitro a rhoddodd fanylion am y cymorth a gynigiwyd i ysgolion i ymdrin â'r gwendidau, a ddarparwyd yn bennaf ganddo ef a/neu'r swyddog cyswllt. Nid oedd yn bosibl darparu Hyfforddiant mewn Swydd ac eithrio ar gyfer pynciau penodol. Hefyd bu'r Aelodau'n trafod yr argymhelliad i ddyfeisio ffyrdd o ysgogi cymhelliad y disgyblion a teimlai'r Cynghorydd D. Owens y dylid gwneud rhagor o ymdrech mewn ysgolion uwchradd. Mewn ymateb dywedodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol fod ganddo lawer o syniadau i'w

rhannu ag ysgolion a byddai'n gweithio gyda'r athrawon ac ysgolion i ymdrin â'r mater hwnnw. O ran yr adroddiad ar Ysgol Dinas Bran, esboniodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol fod absenoldeb tymor hir y Pennaeth Addysg Grefyddol wedi cael effaith ar yr ysgol yn y meysydd a nodwyd yn yr adroddiad. Fodd bynnag, roedd yr athro dan sylw yn ôl yn y gwaith erbyn hyn ac yn mynd i'r afael â'r problemau hynny. Teimlai'r Cynghorydd G. Pickering y dylid annog plant i gymryd rhan mewn Addysg Grefyddol y tu allan i'r ysgol, yn enwedig gan nad oedd ar gyfer bywyd yn yr ysgol yn unig ond ar gyfer bywyd yn gyffredinol. Ymatebodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol, o drafod gyda'r athrawon, ei bod yn ymddangos bod problem gyda'r disgyblion wrth iddynt fynd yn hŷn o ran eu bod yn ystyried Addysg Grefyddol fel rhywbeth llai pwysig ac nid oedd rhieni yn gwerthfawrogi gwerth Addysg Grefyddol ychwanegol felly nid oedd ymateb disgyblion i grefydd mor gryf ag y bu unwaith. Roedd yn bwysig ystyried y mater yn y cyddestun hwnnw, gan gofio bod mwyafrif y disgyblion yn cael fawr ddim cyswllt â chrefydd y tu allan i'r ysgol. Teimlai Major D. Evans fod llai o addoli ar y cyd yn cael ei gynnal mewn ysgolion uwchradd, a allai gyfrannu at y broblem. Awgrymodd y Cadeirydd y gellid gwahodd clerigwyr neu gynrychiolwyr crefyddol i'r ysgolion ac er bod y mae hwn y tu hwnt i gylch gorchwyl CYSAG, gallai'r cynrychiolwyr crefyddol ar y Cyngor Ymgynghorol gyfleu'r neges eu bod yn cynnig eu gwasanaeth i ysgolion.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol am ei waith caled gyda'r broses fonitro a sefydlwyd ganddo fel ffordd o fonitro Addysg Grefyddol mewn ysgolion a chynghorodd bod llawer o ddiddordeb yn y broses honno.

PENDERFYNWYD:-

- (a) *derbyn a nodi'r adroddiad, a*
- (b) *bod yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol i ysgrifennu at yr ysgolion a arolygwyd i'w llongyfarch am y nodweddion cadarnhaol yn eu hadroddiadau a chynnig unrhyw wasanaethau i'w cefnogi o ran ymdrin ag unrhyw wendidau.*

638 DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGIAD YSGOLION

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol adroddiad (a ddsosbarthwyd yn flaenorol) ar y sylwadau cadarnhaol a negyddol ynghylch Addysg Grefyddol a Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol mewn pum ysgol a arolygwyd rhwng Ionawr 2005 a Mai 2005 ynghyd â hanes cefndir cryno am bob ysgol. Cynhaliwyd arolygiadau yn Ysgol Cyffylliog; Ysgol Twm o'r Nant, Dinbych; Ysgol Melyd, Gallt Melyd; Ysgol Rhewl, ac Ysgol Pen Barras, Rhuthun.

Cynghorwyd yr aelodau na chafodd Addysg Grefyddol ei arolygu yn Ysgol Cyffylliog ac Ysgol Pen Barras gan nad oedd yn un o'r chwe pwnc penodol i'w cynnwys yn yr adroddiad dan y trefniadau arolygu newydd.

Darparodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yr aelodau â chrynodeb o'r canfyddiadau perthnasol i bob ysgol, gan esbonio ac egluro'r materion penodol mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau. Roedd yn falch o hysbysu am y nifer uchel o sylwadau cymeradwyol gyda 91 o sylwadau cadarnhaol o ran Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol gyda phob ysgol ag o leiaf 14 o sylwadau unigol. Dim ond 16 o sylwadau negyddol a gafwyd ynghylch Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, ac roedd yr ysgolion unigol yn ymdrin â'r rhain, a nodwyd nad oedd unrhyw sylwadau negyddol wedi eu nodi o ran Ysgol Pen Barras. Roedd y sylw negyddol olaf yn cyfeirio at gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu ymwybyddiaeth ymarferol o ddatblygu cynaliadwy heb ei ddatblygu'n ddigonol. Dywedodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ei bod yn cael ei godi'n amlach yn awr gan fod rhai i ysgolion weithredu mewn modd cynaliadwy. Arolygwyd Addysg Grefyddol mewn tair ysgol yn unig, gyda rhyw 39 o sylwadau cadarnhaol. Roedd yn bleser nodi nad oedd unrhyw wendidau mawr mewn Addysg Grefyddol mewn dwy o'r ysgolion. Roedd yr ysgolion yn ymdrin â'r pedwar sylw negyddol ar hyn o bryd.

Roedd yr aelodau wrth eu bodd gyda'r canfyddiadau cadarnhaol yn yr adroddiad ac yn unol â'r drefn arferol, gofynnodd yr aelodau i'r Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ysgrifennu at yr ysgolion a arolygwyd yn eu llongyfarch ar eu hadroddiad

ac yn cynnig unrhyw wasanaethau o ran mynd i'r afael ag unrhyw wendidau. Teimlai'r Cadeirydd ei bod yn galonogol gweld yr holl waith da sy'n cael ei gyflawni yn ysgolion Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD:-

- (a) *Nodi a derbyn yr adroddiad, a*
- (b) *bod yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yn ysgrifennu at yr ysgolion a arolygwyd i'w llongyfarch am eu hadroddiadau a chynnig unrhyw wasanaethau o ran ymdrin ag unrhyw wendidau.*

639 CAPLANIAID MEWN YSGOLION

Ar gais y Pennaeth Gwasanaethau Addysg cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol llythyr ac adroddiad oddi wrth Eglwys Bresbyteraidd Cymru (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn cymeradwyo'r syniad o benodi Caplaniaid Cristnogol mewn ysgolion cymunedol ac yn gofyn i Gyngorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol ystyried ffyrdd o weithredu swyddi proffesiynol o'r fath yn eu hysgolion.

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ddwy ochr y ddatl o ran penodi Caplaniaid o'r fath. Ar yr un llaw roedd rhesymau cadarnhaol iawn pam ei fod yn gynnig buddiol iawn i gael Caplaniaid mewn ysgolion, gyda manteision i holl ethos yr ysgol; Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion a'r cysylltiadau rhwng Addysg Grefyddol a'r gymuned ffydd leol. Ar y llaw arall roedd y mater o benodi staff, a oedd yn gyfrifoldeb yr ysgol, a fyddai hefyd yn effeithio'r strwythur staffio, sydd y tu allan i gylch gwaith CYSAG. Byddai sicrhau penodiadau o'r fath yn golygu goblygiadau ariannol pan fo prinder athrawon a chymorthyddion dosbarth eisoes mewn llawer o ysgolion. Materion eraill i'w hystyried oedd y cyfrifoldebau cyfreithiol; arfarniadau ac adolygu perfformiad; a'r posibilrwydd y byddai enwadau crefyddol eraill yn dymuno ymgymryd â'r rôl.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol bu'r aelodau'n trafod rhinweddau'r cynnig i benodi Caplaniaid mewn ysgolion, a mynegwyd pryderon am oblygiadau ariannol hyn. Y teimlad cyffredinol oedd mai cyfrifoldeb y gymuned ffydd leol oedd creu perthynas ag ysgolion ac y dylai fod yn benderfyniad personol i bob ysgol a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig yn hytrach na'i wneud yn ofyniad ffurfiol. Fodd bynnag, teimlai'r adnoddau y dylid annog y gymuned ffydd leol i fynd at ysgolion i gynnig eu gwasanaeth ac y dylid annog ysgolion hefyd i sefydlu cysylltiadau â'r gymuned ffydd leol. Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr adroddiad gan Kathleen Wood (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) a chytunwyd gyda'i chasgliadau bod gwahoddiadau gan ysgolion i grwpiau crefyddol yn bwysig ynghyd â pharodrwydd y gymuned ffydd leol i chwilio am gyfleoedd i weithio gydag ysgolion lleol.

PENDERFYNWYD fod CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg Lleol:-

- *i drosglwyddo'r llythyr a gwybodaeth i ysgolion ei hystyried;*
- *atgoffa ysgolion mai mater i'r ysgol yw penodi staff, ond awgrymu efallai y byddant yn dymuno edrych ar ffyrdd o ddatblygu cysylltiadau anffurfiol â'r gymuned ffydd leol, a*
- *bod cynrychiolwyr CYSAG yn annog clerigwyr eu henwadau i gysylltu â'u hysgolion lleol a chynnig cefnogaeth ar sail wirfoddol.*

Gofynnodd Miss. H. Ellis i'r Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol gael adborth ar argymhellion CYSAG.

640 CYNRYCHIOLWYR CYSAG SIR DDINBYCH AR CYSAG CYMRU

(Cafodd yr eitem hon ei hystyried fel eitem frys, wedi i'r Cadeirydd roi rhybudd o hynny ar ddechrau'r cyfarfod).

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau mai'r drefn arferol oedd penodi'r Cadeirydd, yr

Is-gadeirydd, y cyn Gadeirydd a'r Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol fel cynrychiolwyr CYSAG's ar bwyllgor CYSAG Cymru a gofynnodd i'r Cyngor Ymgynghorol gadarnhau'r penodiadau hynny.

PENDERFYNWYD:-

- (a) *penodi'r Cadeirydd, Mrs. M.B. Lloyd, yr Is-gadeirydd, y Parch. B.H. Jones, y cyn Gadeirydd, y Cyngorydd M.M. Jones a Mr. G. Craigen, Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol fel cynrychiolwyr ar CYSAG Cymru, a*
- (b) *gofyn i Glerc CYSAG gysylltu â Susan Collingbourne, Ysgrifennydd CYSAG Cymru, i gadarnhau'r penodiadau hynny.*

Wrth gloi diolchodd y Cadeirydd i gyfieithydd y pwyllgor a Chlerc CYSAG am eu gwaith caled, gyda diolchiadau arbennig i'r Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol am ei wasanaeth gwerthfawr. Atgoffodd yr aelodau y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal am 10.00 a.m. ar 8 Chwefror 2006 yn Neuadd y Sir, Rhuthun. Gan na fyddai'r Cyngor Ymgynghorol yn cyfarfod eto tan fis Chwefror, dymunodd y Cadeirydd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Gorffennodd y cyfarfod am hanner dydd.

CYNHADLEDD MAES LLAFUR CYTUNEDIG SIR DDINBYCH

Cofnodion cyfarfod Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig Sir Ddinbych a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ffordd Llys Nant, Prestatyn, ddydd Mawrth, 11 Hydref 2005 am hanner dydd.

PRESENNOL

Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Y Cynghorwyr G.C. Evans, G.A. Jones, M.M. Jones, D. Owens a G.J. Pickering

Yn cynrychioli Pwyllgor Cyd-negodi Athrawon Sir Ddinbych

I. Barros-Curtis, M. Bradshaw a M.B. Lloyd

Yn cynrychioli enwadau crefyddol

M. Colbert, Parch. P.J. Collinson, H. Ellis, Major D. Evans, M. Evans, S. Harris, Parch. B.H. Jones, J. Kirkham a P. Speirs

HEFYD YN BRESENNOL

Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol (G. Craigen) a Swyddog Gweinyddol (K.E. Jones)

Arsylwyr: Aelod Cyfetholedig CYSAG T. Ap Sion (dirprwy ar ran y Parch. Athro L.J. Francis) a'r Cynghorydd R.E. Barton

DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

T. Bryer, J. Buckley-Jones, C. Thomas a'r Cynghorwyr K.N. Hawkins a N. Hugh-Jones

641 PENDERFYNIAD YNGHYLCH ADOLYGIAD Y MAES LLAFUR CYTUNEDIG

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r aelodau gytuno i ohirio unrhyw adolygiad o'r Maes Llafur Cytunedig nes ceir canlyniadau'r Adolygiad Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n cael ei gynnal gan ACCAC ar hyn o bryd. Esboniodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol, petai'r aelodau'n cytuno â'r argymhelliad, gellid cynnal yr adolygiad o Faes Llafur Cytunedig Sir Ddinbych yn ddiweddarach, ar ôl cael gwybod beth yw Argymhellion yr Adolygiad Cwricwlwm Cenedlaethol ac ar yr un pryd ag Awdurdodau Addysg Lleol a Chynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol eraill a'i bod yn bosibl y byddai ACCAC a CYSAG Cymru yn cynnig cyngor a chymorth. Yn ychwanegol, byddai Meysydd Llafur Cytunedig yng Nghymru yn gweithio yn unol â'r un amserlen ar gyfer Adolygiadau yn y dyfodol a byddai hynny'n galluogi ACCAC i gynnig canllawiau a chyfeiriad priodol ac amserol.

Hefyd cynghorwyd yr Aelodau, yn dilyn trafodaethau â Swyddog Monitro'r Cyngor, fod yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yn dymuno egluro, pe na bai canlyniadau Adolygiad Cwricwlwm Cenedlaethol ACCAC wedi eu derbyn erbyn 2007 (pan fo rhaid cynnal Adolygiad o Faes Llafur Cytunedig Sir Ddinbych) byddai'n angenrheidiol galw cyfarfod o'r Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig i ailfabwysiadu'r Maes Llafur Cytunedig presennol yn ffurfiol. Yn dilyn derbyn canlyniadau Adolygiad Cwricwlwm Cenedlaethol ACCAC cynhelid Adolygiad o Faes Llafur Cytunedig Sir Ddinbych.

Ar ôl ystyried y mater:-

PENDERFYNWYD:-

- (a) *gohirio Adolygiad Maes Llafur Cytunedig Sir Ddinbych nes ceir canlyniadau'r Adolygiad Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n cael ei gynnal gan ACCAC ar hyn o bryd, a*
- (b) *pe na bai canlyniadau'r Adolygiad Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael eu cyhoeddi yn ystod 2007 y dylid galw cyfarfod o'r Gynhadledd Maes Llafur*

Cytunedig i ailfabwysiadu'r Maes Llafur Cytunedig presennol yn ffurfiol nes derbyn canlyniadau'r Adolygiad.

Gorffennodd y cyfarfod am 12.05 p.m.

Ysgolion Sir Ddinbych **Tabl A**
Denbighshire Schools – Table A

CANLYNIADAU TAGAU 2004: PAWB – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
GCSE RESULTS 2004: ALL – RELIGIOUS STUDIES

<i>Ysgolion</i> Schools	<i>Cyfanswm/</i> Totals	<i>%</i> Carfan Cohort	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	F	%	G	%	U	%	% A* - C	% A* - G
<i>Dinbych</i> Denbigh	20	12.7	1	5.0	2	10.0	4	20.0	3	15.0	2	10.0	4	20.0	3	15.0	0	0.0	1	5.0	50.0	95.0
Glan Clwyd																						
Prestatyn	154	59.2	10	6.5	33	21.4	41	26.6	31	20.1	9	5.8	18	11.7	6	3.9	4	2.6	2	1.3	74.7	98.7
Dinas Bran	11	5.6	1	9.1	2	18.2	1	9.1	3	27.3	1	9.1	0	0.0	0	0.0	2	18.2	1	9.1	63.6	90.9
Brynhyfryd	16	8.0	3	18.8	2	12.6	3	18.8	3	18.8	3	18.8	1	6.3	1	6.3	0	0.0	0	0.0	68.8	100
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>																						
<i>Ben Ed</i> <i>Jones/Bl.</i> Ed Jones	49	59.8	3	6.1	1	2.0	7	14.3	11	22.4	8	16.3	8	16.3	5	10.2	2	4.1	4	8.2	44.9	91.8
<i>Santes</i> <i>Ffraid/</i> St Brigids	52	98.1	12	23.1	14	26.9	16	30.8	3	5.8	2	3.8	3	5.8	1	1.9	1	1.9	0	0.0	86.5	100
<i>Cyfanswm</i> <i>AALI/</i> LEA Totals	302		30	9.9	54	17.9	72	23.8	54	17.9	25	8.3	34	11.2	16	5.3	9	3.0	8	2.6	68.5	97.4
<i>Cronnol/</i> Cumulative			30	9.9	84	27.8	156	51.6	210	69.5	235	77.8	269	89.1	285	94.3	294	97.3	302	100	68.5	97.4
<i>Holl Cymru</i> <i>All Wales</i>	5972		709	11.9	1742	29.2	2966	49.7	4064	68.1	4715	79.0	5239	87.7	5567	93.2	5780	96.8	5972	100	68.1	96.8

Ysgolion Sir Ddinbych – TABL B
Denbighshire Schools – Table B

CANLYNIADAU TGAU 2004 BECHGYN – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
GCSE RESULTS 2004 BOYS – RELIGIOUS STUDIES

<i>Ysgolion/ Schools</i>	<i>Cyfan swm Totals</i>	<i>% Cohort/ Cydran</i>	<i>A*</i>	<i>%</i>	<i>A</i>	<i>%</i>	<i>B</i>	<i>%</i>	<i>C</i>	<i>%</i>	<i>D</i>	<i>%</i>	<i>E</i>	<i>%</i>	<i>F</i>	<i>%</i>	<i>G</i>	<i>%</i>	<i>U</i>	<i>%</i>	<i>% A* - C</i>	<i>% A* -G</i>
<i>Dinbych Denbigh</i>	4	4.6	0	0.0	0	0.0	1	25.0	1	25.0	1	25.0	0	0.0	1	25.0	0	0.0	0	0.0	50.0	100
<i>Glan Clwyd</i>																						
<i>Prestatyn</i>	90	60.1	3	3.3	17	18.9	24	26.7	23	25.6	7	7.8	11	12.2	1	1.1	3	3.3	1	1.1	74.4	98.9
<i>Dinas Bran</i>	4	4.2	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0	0	0.0	1	25.0	1	25.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	50.0	100
<i>Brynhyfryd</i>	4	3.8	2																			
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>																						
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	22	57.9	1	4.5	0	0.0	2	9.1	3	13.6	3	13.6	5	22.7	2	9.1	2	9.1	4	18.2	27.3	81.8
<i>Santes Fraid St Brigids</i>																						
<i>Cufamswm AAL/ LEA Totals</i>	124		6	4.8	17	13.7	28	22.6	27	21.8	13	10.5	17	13.7	4	3.2	7	5.7	5	4.0	62.9	96.0
<i>Cronnol Cumulative</i>	124		6	4.8	23	18.5	51	41.1	78	62.9	91	73.4	108	87.1	112	90.3	119	96.0	124	100	62.9	96.0
<i>Holl Cymru All Wales</i>	2048		161	7.9	432	21.1	815	39.8	1203	58.7	1475	72.0	1695	82.8	1834	89.6	1944	94.9	2048	100	58.7	94.9

Ysgolion Sir Ddinbych **TABL C**
Denbighshire Schools **TABLE C**

CANLYNIADAU TGAU 2004 MERCHED – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
GCSE RESULTS 2004: GIRLS – RELIGIOUS STUDIES

<i>Ysgolion/ Schools</i>	<i>Cyfan swm/ Totals</i>	<i>% Cydran Cohort</i>	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	F	%	G	%	U	%	% A* - C	% A* - G
<i>Ddinbych Denbigh</i>	16	22.5	1	6.3	2	12.5	3	18.8	2	12.5	1	6.3	4	25.0	2	12.5	0	0.0	1	6.3	50.0	93.8
Glan Clwyd																						
Prestatyn	64	57.1	7	10.9	16	25.0	17	26.6	8	12.5	2	3.1	7	10.9	5	7.8	1	1.6	1	1.6	75.0	98.4
Dinas Bran	7	6.9	1	14.3	2	28.6	0	0.0	3	42.9	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	1	14.3	85.7	85.7
Brynhyfryd	12	12.6	1	8.3	2	16.6	3	24.9	3	24.9	2	16.6	0	0.0	1	8.3	0	0.0	0	0.0	75.0	100
<i>Y Rbyl/ Rhyl</i>																						
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	27	61.4	2	7.4	1	3.7	5	18.5	8	29.6	5	18.5	3	11.1	3	11.1	0	0.0	0	0.0	59.3	100
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>	52	98.1	12	23.1	14	26.9	16	30.8	3	5.8	2	3.8	3	5.8	1	1.9	1	1.9	0	0.0	86.5	100
<i>Cyfanswm AALL LEA Totals</i>	178		24	13.5	37	20.8	44	24.7	27	15.2	12	6.7	17	9.6	12	6.7	2	1.1	3	1.7	73.0	98.3
<i>Cronnol Cumulative</i>	178		24	13.5	61	34.3	105	59.0	132	74.2	144	80.9	161	90.5	173	97.2	175	98.3	178	100	73.0	98.3
<i>Holl Cymru All Wales</i>	3924		548	14.0	1310	33.4	2151	54.8	2861	72.9	3240	82.6	3544	90.3	3733	95.1	3836	97.6	3924	100	72.9	97.8

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl CH **CANLYDIADAU TGAU 2004 PAWB – ASTUDIAETHAU GREFYDDOL: CWRS BYR**
Denbighshire Schools – Table D **GCSE RESULTS 2004: ALL – RELIGIOUS EDUCATION SHORT COURSE**

<i>Ysgolion/ Schools</i>	<i>Cyfanswm/ Totals</i>	<i>% Cydra n Cohor t</i>	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	F	%	G	%	U	%	% A* - C	% A* - G
<i>Dinbych Denbigh</i>	48	30.4	2	4.2	2	4.2	8	16.7	19	39.6	8	16.7	7	14.6	1	2.1	0	0.0	1	2.1	64.6	97.6
<i>Glan Clwyd</i>	116	58.3	1	0.9	4	3.4	17	14.7	30	25.9	25	21.6	17	14.7	14	12.1	6	5.2	2	1.7	44.8	98.3
<i>Prestatyn</i>	7	2.7	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	1	14.3	6	85.7	0.0	14.3
<i>Dinas Bran</i>	67	34.0	3	4.5	2	3.0	10	14.9	17	25.4	8	11.9	10	14.9	8	11.9	4	6.0	5	7.5	47.8	92.5
<i>Brynhyfryd</i>																						
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>																						
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	7	8.5	0	0.0	0	0.0	1	14.3	1	14.3	2	28.6	2	28.6	1	14.3	0	0.0	0	0.0	28.6	100
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>	1	1.9	0	0.0	0	0.0	1	100	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Cyfanswm AALL LEA Totals</i>	246		6	2.4	8	3.3	37	15.0	67	27.3	43	17.4	36	14.7	24	9.7	11	4.5	14	5.7	48.0	94.3
<i>Cronnol/ Cumulative</i>	246		6	2.4	14	5.7	51	20.7	118	48.0	161	65.4	197	80.1	221	89.8	232	94.3	246	100	48.0	94.3
<i>Holl Cymru All Wales</i>	11767		806	6.8	2139	18.2	4321	36.7	6871	58.4	8506	72.3	9700	82.4	10596	90.0	11240	95.5	11767	100	58.4	95.5

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl D
Denbighshire Schools – Table E

CANLYDIADAU TGAU 2004 BECHGYN – ASTUDIAETHAU GREFYDDOL: CWRS BYR
GCSE RESULTS 2004: BOYS RELIGIOUS EDUCATION SHORT COURSE

<i>Ysgolion Schools</i>	<i>Cyfan swm Totals</i>	<i>% Cydran Cohort</i>	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	F	%	G	%	U	%	% A* - C	% A* - G
<i>Dinbych Denbigh</i>	10	11.5	1	10.0	0	0.0	1	10.0	3	30.0	3	30.0	2	20.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	50.0	100
<i>Glan Clwyd</i>																						
<i>Prestatyn</i>	4	2.7	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	1	25.0	3	75.0	0.00	25.0
<i>Dinas Bran</i>	20	21.0	0	0.0	0	0.0	2	10.0	4	20.0	4	20.0	4	20.0	3	15.0	2	10.0	1	5.0	30.0	95.0
<i>Brynhyfryd</i>																						
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	47	43.5	1	2.1	1	2.1	6	12.8	12	25.5	10	21.3	6	12.8	7	14.9	4	8.5	0	0.0	42.6	100
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	3	7.9	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	1	33.3	2	66.7	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	100
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>																						
<i>Cyfanswm AAL/ LEA Totals</i>	84		2	2.4	1	1.2	9	10.7	19	22.6	18	21.4	14	16.7	10	11.9	7	8.3	4	4.8	36.9	95.2
<i>Cronnol Cumulative</i>	84		2	2.4	3	3.6	12	14.3	31	36.9	49	58.3	63	75.0	73	86.9	80	95.2	84	100	36.9	95.2
<i>Holl Cymru All Wales</i>	5591		213	3.8	713	12.8	1613	28.8	2858	51.1	3686	65.9	4336	77.6	4853	86.8	5246	93.8	5591	100	51.1	93.8

Ysgolion Sir Ddinbych - Tabl DD
Denbighshire Schools – Table F

CANLYNIADAU TGAU 2004: MERCHED – ADYSG GREFYDDOL: CWRS BYR
GCSE RESULTS 2004: GIRLS – RELIGIOUS EDUCATION SHORT COURSE

<i>Ysgolion Schools</i>	<i>Cyfanswm Totals</i>	<i>% Cydran Cohort</i>	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	F	%	G	%	U	%	% A* - C	% A* - G
<i>Dinbych Denbigh</i>	38	53.5	1	2.6	2	5.3	7	18.4	16	42.1	5	13.2	5	13.2	1	2.6	0	0.0	1	2.6	68.4	97.4
<i>Glan Clwyd</i>																						
<i>Prestatyn</i>	3	2.7	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	3	100	0.0	0.0
<i>Dinas Bran</i>	47	46.1	3	6.4	2	4.3	8	17.0	13	27.7	4	8.5	6	12.8	5	10.6	2	4.3	4	8.5	55.3	91.5
<i>Brynhyfryd</i>																						
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	69	75.8	0	0.0	3	4.3	11	15.9	18	26.1	15	21.7	11	15.9	7	10.1	2	2.9	2	2.9	46.4	97.1
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	4	9.1	0	0.0	0	0.0	1	25.0	1	25.0	1	25.0	0	0.0	1	25.0	0	0.0	0	0.0	50.0	100
<i>Santes Ffraid/St Brigids</i>	1	1.9	0	0.0	0	0.0	1	100	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Cyfanswm AALL LEA Totals</i>	162		4	2.5	7	4.3	28	17.3	48	29.6	25	15.4	22	13.6	14	8.7	4	2.5	10	6.2	53.7	93.8
<i>Cronnol Cumulative</i>	162		4	2.5	11	6.8	39	24.1	87	53.7	112	69.1	134	82.7	148	91.4	152	93.8	162	100	53.7	93.8
<i>Holl Cymru All Wales</i>	6176		593	9.6	1426	23.1	2708	43.8	4013	650	4820	78.0	5364	86.9	5743	93.0	5994	97.1	6176	100	78.0	97.1

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl E – CANLYNIADAU SAFON UWCH 2004 – PAWB ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
Denbighshire Schools – Table G GCE ADVANCED LEVEL RESULTS 2004: ALL – RELIGIOUS STUDIES

<i>Ysgolion Schools</i>	<i>Cyfanswm Totals</i>	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	U	%	% A - C	% A - E
<i>Dinbych Denbigh</i>	2	0	0.0	1	50.0	1	50.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Glan Clwyd</i>															
<i>Prestatyn</i>	13	3	23.1	8	67.5	2	15.4	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Dinas Bran</i>	2	0	0.0	0	0.0	1	50.0	1	50.0	0	0.0	0	0.0	50.0	100
<i>Brynhyfryd</i>	1	1	100	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>															
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>															
<i>Santes Ffraid St Brigids</i>	9	0	0.0	2	22.2	0	22.2	3	33.3	2	22.2	0	0.0	44.4	100
<i>Cyfanswm AALL LEA Totals</i>	27	4	14.8	11	40.8	6	22.2	4	14.8	2	7.4	0	0.0	77.8	100
<i>Cronnol Cumulative</i>	27	4	14.8	15	55.6	21	71.8	25	92.6	27	100	27	100	77.8	100
<i>Holl Cymru All Wales</i>	747	124	16.6	323	43.2	515	68.9	668	89.4	731	97.9	747	100	68.9	97.9

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl F – CANLYNIADAU SAFON UWCH 2004 – BECHGYN ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
Denbighshire Schools – Table H GCE ADVANCED LEVEL RESULTS 2004: BOYS – RELIGIOUS STUDIES

<i>Ysgolion Schools</i>	<i>Cyfan swm Totals</i>	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	U	%	% A - C	% A - E
<i>Dinbych Denbigh</i>															
<i>Glan Clwyd</i>															
<i>Prestatyn</i>	1	0	0.0	1	100	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Dinas Bran</i>															
<i>Brynhyfryd</i>	1	1	100	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Y Rhyl /Rhyl</i>															
<i>Ben Ed Jones Bl. Ed Jones</i>															
<i>Santes Ffraid St Brigids</i>															
<i>Cyfanswm AALI</i>															
<i>LEA Totals</i>	2	1	50.0	1	50.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Cronnol Cumulative</i>	2	1	50.0	2	100	2	100	2	100	2	100	2	100	100	100
